

**Papur Gwyn Amaethyddiaeth
(Cymru)**

Ein Hymateb a'n Blaengynllun

Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) ar 16 Rhagfyr 2020. Mae'n nodi ein huchelgais i ddiwygio'r ffordd y mae amaethyddiaeth yn cael ei chefnogi gan y Llywodraeth yn y dyfodol a'n bwriad i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth yn y Senedd, gan ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer:

- Rheoli Tir yn Gynaliadwy: polisi a chymorth ar gyfer y dyfodol;
- cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol;
- diwygio rheoleiddio;
- cymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi yn y dyfodol;
- rheoli coetiroedd a choedwigaeth;
- gwella iechyd a lles anifeiliaid;
- gwella gwaith monitro drwy wneud defnydd effeithiol o ddata a thechnoleg o bell;
- disodli pwerau penodol yn Neddf Amaethyddiaeth (y DU) 2020.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 26 Mawrth 2021. Daeth 232 o ymatebion o sylwedd i law a chyflwynwyd 887 o ymatebion drwy ymgyrch a drefnwyd gan y Cynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd amser i ymateb.

Mae dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyhoeddi yma. [Bil Amaethyddiaeth \(Cymru\) | LLYW.CYMRU](#)

Mae adran gyntaf y cyhoeddiad hwn yn nodi cwmpas y Bil Amaethyddiaeth a'n blaengynllun. Mae'r ail adran yn nodi ein hymateb i'r prif faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad.

Ymgysylltu

Mae ein cynigion yn cynrychioli newid mawr mewn polisi amaethyddol. Er mwyn datblygu ein syniadau rydym wedi cynnal dau ymgynghoriad blaenorol:

- ***Brexit a'n Tir 2018*** (1,043 o ymatebion o sylwedd a 11,160 o ymatebion ymgyrch);
- ***Ffermio Cynaliadwy a'n Tir 2019*** (511 o ymatebion o sylwedd a 2,816 o ymatebion ymgyrch).

Mae'r ymgynghoriadau ffurfiol hyn wedi'u hategu gan amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyd-ddylunio sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod ein cynigion yn ymarferol ac yn addas i'r diben.

Roedd tua 2,000 o ffermwyr wedi ymwneud â'r cam cyd-ddylunio cyntaf. Roedd y broses hon yn ddull gwerthfawr y gallai ffermwyr a rhanddeiliaid ei ddefnyddio i lywio ein cynigion sy'n datblygu.

Mae adroddiad annibynnol o'r prosiect cyd-ddylunio i'w weld yma:

<https://llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-cyd-ddylunio-ffermio-yn-y-dyfodol>

Byddwn yn cynnal gwaith cyd-ddylunio ac ymgysylltu ychwanegol i alluogi ffermwyr a rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ymhellach. Bydd y broses hon yn helpu i fireinio ein cynigion cyn lansio ymgynghoriad ffurfiol.

Adran 1 – Cwmpas y Bil Amaethyddiaeth a'r Blaengynllun

1. Cwmpas y Bil Amaethyddiaeth

Daeth y dadansoddiad annibynnol o'r Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) i'r casgliad bod ymatebwyr, ar y cyfan, yn ystyried y cynigion yn gadarnhaol. Nodwyd cafeat i hyn bod angen mwy o fanylion, yn enwedig o ran y cymorth a fydd ar gael i'r sector amaethyddiaeth yn y dyfodol.

Mae diwygio amaethyddol ac ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur yn heriau hirdymor. Mae sicrhau sector amaethyddol cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn allweddol i gyflawni ein hymrwymiad i Gymru fod yn sero-net erbyn 2050 ac i wyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Bydd y Bil Amaethyddiaeth yn hanfodol i gyflawni'r nodau hyn, gan bennu ein cyfeiriad polisi ar gyfer y pymtheg i ugain mlynedd nesaf.

Nododd y Cwnsler Cyffredinol ein rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol ar 6 Gorffennaf 2021. Cadarnhaodd hyn y byddwn yn cyflwyno Bil Amaethyddiaeth newydd ym mlwyddyn gyntaf y Senedd i sefydlu system newydd o gymorth i ffermwyr, yn seiliedig ar yr egwyddorion o Reoli Tir yn Gynaliadwy, a fydd yn manteisio i'r eithaf ar bŵer amddiffyn natur drwy ffermio. Byddwn hefyd yn disodli'r pwerau amser cyfyngedig yn Neddf Amaethyddiaeth (y DU) 2020 a gymerwyd gennym i ddarparu parhad a sefydlogrwydd y mae mawr ei angen ar ein ffermwyr wrth inni ymadael â'r UE.

Y Bil hwn yw cam cyntaf ein rhaglen ddiwygio amaethyddol a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a ffermwyr ar ein cynigion hirdymor. Amlinellir y darpariaethau a gaiff eu datblygu yn y Bil isod:

Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a chymorth ar gyfer y dyfodol (gan gynnwys pontio)

Bydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael ei sefydlu fel yr egwyddor gyffredinol ar gyfer polisi amaethyddol yn y dyfodol, gan gynnwys cymorth ar gyfer y dyfodol.

Bydd y Bil hefyd yn rhoi'r pwerau i sefydlu, gweinyddu a chau cynlluniau sy'n galluogi ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion SLM. Bydd hefyd yn darparu'r fframwaith i gefnogi'r broses o drosglwyddo o Gynllun y Taliad Sylfaenol (a chynlluniau datblygu gwledig eraill) i gynlluniau yn y dyfodol.

Pwerau machlud

Rydym yn bwriadu deddfu drwy'r Senedd ar y darpariaethau hynny a gymerwyd ar gyfer Gweinidogion Cymru drwy Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 ac a fydd yn dod i ben ('machlud') ar 31 Rhagfyr 2024.

Tenantiaethau

Rydym am sicrhau pwerau gwneud rheoliadau er mwyn i denant o dan denantiaethau Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 allu troi at drefniadau datrys anghydfod i benderfynu ar gais i landlord am ganiatâd i gynnal gweithgaredd sydd wedi'i wahardd o dan delerau ei gytundeb tenantiaeth neu ar gais i newid y telerau i'r tenant gael manteisio ar gymorth ariannol Llywodraeth Cymru.

Coedwigaeth

Byddwn yn cynnwys pwerau yn y Bil Amaethyddiaeth i sicrhau y gall Gweinidogion Cymru gadw'r pŵer i adolygu a diwygio terfynau'r Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol (EIA).

Byddwn yn cynnwys darpariaethau yn y Bil sy'n diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i ganiatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu amodau at drwyddedau cwmpo coed, ac i ganiatáu i drwyddedau cwmpo gael eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu ar ôl i drwyddedau gael eu rhoi.

Maglau

Byddwn yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i wahardd defnyddio maglau a thrapiau glud.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Sanctsiynau Sifil

Ein bwriad o hyd yw lleihau'r baich rheoleiddiol ar ffermwyr. Rydym am ei gwneud yn haws i ffermwyr ddeall yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r gyfraith drwy gyflwyno Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Credwn hefyd y dylai gorfodaeth fod yn gymesur â difrifoldeb y drosedd ac osgoi troi ffermwyr yn droseddwr am droseddau llai difrifol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y cynigion hyn yn gymhleth a rhaid eu hystyried yn ofalus. Yn y cam diwygio nesaf byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu gweithredu mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r cynllun arfaethedig.

2. Y Blaengynllun

Rydym yn derbyn ac yn deall yr alwad o'r ymgynghoriad i gael rhagor o fanylion am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig a'n cynlluniau ar gyfer pontio er mwyn caniatáu amser i'r diwydiant baratoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda ffermwyr a rhanddeiliaid i sicrhau bod y cynllun yn y dyfodol yn addas i'r diben. Mae'r adran hon yn amlinellu ein blaengynllun sy'n arwain at lansiad arfaethedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2025.

2022

Ochr yn ochr â chyflwyno'r Bil Amaethyddiaeth, byddwn yn cyhoeddi drafft o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Nid hwn fydd y Cynllun terfynol, ond bydd yn cynnwys manylion am strwythur y Cynllun a'r camau gweithredu penodol yr ydym yn cynnig y bydd gofyn i ffermwyr eu cymryd. Bydd hyn hefyd yn galluogi'r Senedd i weld sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r pwerau sydd yn y Bil Amaethyddiaeth.

Bydd amrywiaeth o ddadansoddiadau wedi'u gwneud ar y camau gweithredu yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i amcangyfrif y gost economaidd i fusnes y fferm a'r sector ehangach o'u cyflawni a'r budd amgylcheddol sy'n deillio o hynny. Caiff hyn ei gyhoeddi fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn mynd gyda'r Bil Amaethyddiaeth.

Yn haf 2022, yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft, byddwn yn dechrau ar ein cam nesaf o gyd-ddylunio. Bydd y broses hon yn caniatáu i ffermwyr a rhanddeiliaid gyfrannu at fanylion technegol y cynigion a sicrhau bod y Cynllun yn ymarferol ac yn gyflawnadwy. Bydd canfyddiadau'r cam hwn o gyd-ddylunio yn llywio datblygiad y Cynllun ymhellach a'n dull pontio.

Yn 2022, ein bwriad hefyd yw lansio amrywiaeth o ymyriadau a fydd yn rhedeg hyd nes y caiff y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei lansio yn 2025. Bydd yr ymyriadau hyn yn helpu i baratoi ffermwyr ar gyfer mynediad i'r cynllun a hefyd yn treialu proses newydd i lywio'r gwaith o gyflawni'r cynllun.

Byddwn hefyd yn lansio cynllun newydd i ariannu creu coetiroedd, gyda chyllid ar wahân i gynllunio prosiectau coetiroedd. Byddwn yn ceisio trosglwyddo'r gwelliannau o'r Cynllun hwn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

2023

Yng Ngwanwyn 2023, yn dilyn y gwaith cyd-ddylunio ac yn amodol ar y Bil Amaethyddiaeth yn cael Cydsyniad Brenhinol, byddwn yn lansio ymgynghoriad terfynol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'n cynlluniau pontio i symud i ffwrdd o Gynllun y Taliad Sylfaenol. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn byddwn hefyd yn cyhoeddi dadansoddiadau economaidd pellach o'r Cynllun arfaethedig. Gwneir penderfyniad terfynol ar sut y byddwn yn gweithredu hyn unwaith y byddwn wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Yn y cyfamser, yn amodol ar ddigon o arian yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU, ein bwriad yw parhau â Chynllun y Taliad Sylfaenol tan 2021 i ddarparu cymorth i ffermwyr wrth inni weithio gyda'n gilydd i drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

2024

Yn 2024 byddwn yn lansio rhaglen allgymorth i ymgysylltu â ffermwyr ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau arddangos, gweithdai a chymorthfeydd. Drwy'r digwyddiadau hyn bydd cyfle i ffermwyr ddeall y camau y bydd angen iddynt eu cymryd ar eu fferm a'r cyngor, y cymorth a'r taliad tebygol y byddant yn eu derbyn yn gyfnewid am hynny. Rydym hefyd yn bwriadu dechrau'r

broses o gynnwys ffermwyr yn y Cynllun newydd drwy gynnal Adolygiadau Cynaliadwyedd Fferm (amlinellwyd ein cynigion ar gyfer yr Adolygiad hwn yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*).

2025

Ein bwriad yw agor y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ym mis Ionawr 2025. Dilynir hyn gan gyfnod pontio aml-flwyddyn i alluogi'r ffermwyr hynny sy'n derbyn taliadau drwy gynllun y Taliad Sylfaenol i drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Adran 2: Ein Hymateb i'r Ymgynghoriad

Cyflwyniad

Mae'r adran ganlynol yn nodi ein hymateb i'r cynigion unigol i'r Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru). Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'r cynigion ac yn derbyn bod angen mwy o fanylion a fydd yn cael sylw drwy ymgynghori a chyd-ddylunio pellach fel y nodir yn yr adran flaenorol.

Diwygio Rheoleiddio

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Mae'n galonogol gweld cymeradwyaeth i gynigion sy'n ymwneud â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, yn benodol i symleiddio'r dirwedd reoleiddio bresennol.

Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai'r Safonau yn cynyddu'r llinell sylfaen reoleiddiol, yn cynyddu costau gweithredu ac yn lleihau cystadleurwydd ffermwyr Cymru.

Mae cynigion ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ceisio cynnal ac egluro'r safonau cyfreithiol sydd gennym eisoes yn bennaf, gan sicrhau bod ffermwyr yn deall y gyfraith sydd eisoes yn bodoli. Nid ein bwriad yw codi'r llinell sylfaen gyfreithiol. Felly, ni ddylai'r Safonau gynyddu costau i'r rhai sydd eisoes yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Nodom fod rhai ymatebwyr o'r farn nad yw'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn mynd yn ddigon pell ac roeddem yn pryderu y gallai hyblygrwydd arwain at ostyngiad mewn safonau.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i gynnal safonau uchel wrth adael yr UE ac wedi bod yn glir y byddem yn gwrthod cymryd rhan mewn 'ras i'r gwaelod' o ran safonau ac i sicrhau bod gennym reoliadau parhaus sy'n briodol i Gymru.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda gweinyddiaethau eraill y DU i ddeall unrhyw wahaniaethau mewn rheoleiddio rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU.

Roedd rhai ymatebion i'r cynigion ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn tynnu sylw at y ffaith bod lefel y manylion a ddarparwyd ar gwmpas y safonau yn annigonol i bennu'r effaith a allai gael. Roedd eraill yn amheus y byddai'r cynigion yn ddigon i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd, natur ac iechyd a wynebwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen llinell sylfaen reoleiddio sy'n esblygu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn.

Darparwyd manylion cychwynnol yn yr ymgynghoriad ar gwmpas, fformat ac egwyddorion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, bydd angen gwneud rhagor o waith ar ddatblygu cynigion y Safonau, gan gynnwys edrych ar opsiynau deddfwriaethol a rhai nad ydynt yn ddeddfwriaethol i wireddu ein huchelgeisiau.

Wrth ddatblygu cynigion yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad ychwanegol ar ddigonolrwydd y llinell sylfaen reoleiddio i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol. Byddai unrhyw adolygiad o'r fath hefyd yn ystyried masnach, safonau cymharol a chystadleurwydd sector amaethyddiaeth Cymru, yn unol â phryderon a godwyd gan randdeiliaid sy'n ymateb ar y materion hyn.

Sanctsiynau Sifil

Roeddem yn falch o weld bod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cydnabod pwysigrwydd mwy o gymesuredd i orfodi cydymffurfiaeth reoleiddiol ac roeddem yn cytuno â'r nod o gynigion ar gyfer sanctsiynau sifil.

Nodom fod rhai gwahaniaethau yn y ffordd y dehonglwyd ein cynigion. Wrth ystyried gorfodi, byddai rhai ymatebwyr yn cyfeirio at eu profiadau o orfodi o dan y cynlluniau ffermio presennol, a oedd weithiau'n uno â'u barn am orfodi'r gyfraith.

Mae'n bwysig nodi bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Sanctsiynau Sifil yn wahanol i'w gilydd. Bydd cynigion ar gyfer Sanctsiynau Sifil yn sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gorfodi'n gymesur ac yn gyson, p'un a yw ffermwyr yn aelodau o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ai peidio. Mae hyn yn golygu y bydd aelodau'r Cynllun yn cael yr un sanctsiynau sifil neu droseddol ag y byddent pe na baent yn aelodau, gan fod hyn yn ymwneud â chydymffurfio â'r gyfraith.

Ni fwriedir i sanctsiynau sifil gymryd lle cosbau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn uniongyrchol a byddant ar wahân i unrhyw sanctsiynau ar gyfer y Cynllun newydd.

Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i bob ffermwr sy'n gwneud cais i'r Cynllun gydymffurfio â'r gyfraith a byddai cydymffurfio parhaus yn hanfodol i gyfiawnhau taliadau parhaus am ganlyniadau amgylcheddol.

Rydym yn cydnabod y bydd angen ystyried ac ymgynghori'n fanwl ar gwmpas y Sanctsiynau Sifil, sut y byddant yn cael eu cymhwyso, a sut y byddant yn rhyngweithio â gofynion y Cynllun newydd.

Nodom fod rhai ymatebwyr o'r farn na fyddai'r cynigion ar gyfer sanctsiynau sifil yn rhwystr digonol i dorri'r gyfraith. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, bydd erlyniadau troseddol presennol yn dal i fod yn opsiwn ar gyfer troseddau mwy difrifol, lle mae niwed difrifol wedi'i achosi a lle mae opsiynau eraill wedi bod yn aneffeithiol.

Rydym o'r farn o hyd y bydd yr offer gorfodi a gynigir o dan sanctsiynau sifil gan gynnwys rhybuddion, hysbysiadau a chosbau ariannol yn ategu'r sanctsiynau troseddol presennol i roi ystod o offer i reoleiddwyr sy'n gymesur â difrifoldeb y tramgwydd.

Mae cyflwyno sancsiynau sifil yn gymhleth a bydd yn cymryd amser i ddatblygu. Er ein bod wedi amlinellu'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer defnyddio sancsiynau sifil, bydd angen ystyriaeth bellach. Bydd angen datblygu cynigion ar y cyd â ffermwyr, rheolwyr tir a rheoleiddwyr. Ymgynghorir ar wahân ar y cynigion sy'n ymwneud â sancsiynau sifil yn y dyfodol hefyd.

Cydymffurfiaeth a Llesiant Ffermwyr a Phontio

Rydym yn croesawu'r consensws cyffredinol ar gyfer symleiddio'r dirwedd reoleiddio bresennol ac ar gyfer sicrhau bod gorfodi'n gymesur.

Rydym yn cydnabod bod rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai lefel y newid rheoleiddiol gael effaith negyddol ar lesiant ffermwyr. Roedd canfyddiad y gallai'r cynigion hyn gynyddu ansicrwydd i ffermwyr, gan gynnwys llywio amrywiadau mewn incwm ac wrth ymateb i'r newidiadau i fframweithiau rheoleiddio.

Rydym yn cydnabod ein bod yn cynnig newidiadau i'r ffordd y caiff y llinell sylfaen reoleiddio ei monitro a'i gorfodi. Rydym yn deall y gall unrhyw newid fod yn annifyr a byddwn yn ystyried effaith cynigion ar ffermwyr, gan gynnwys effaith ar iechyd meddwl a busnesau fferm, yn fanylach wrth ymgynghori ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol newid y llinell sylfaen reoleiddio bresennol. Ein bwriad yw peidio â dal pobl allan, ond sicrhau bod gan ffermwyr ddealltwriaeth glir o ofynion rheoleiddio, sy'n cael eu cyfleu drwy gyngor a chanllawiau sy'n hawdd eu defnyddio. Bydd angen i ni hefyd weithio gyda ffermwyr i ystyried cyfnod pontio priodol ar gyfer cyflwyno'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Sancsiynau Sifil.

Rheoli Tir yn Gynaliadwy: Polisi a Chymorth ar gyfer y Dyfodol

Cadarnhaodd y Papur Gwyn Reoli Tir yn Gynaliadwy fel sail i bolisi a chefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol. Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi'r cynigion ynghylch cymorth yn y dyfodol ond rydym yn derbyn yr angen am fwy o fanylion am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac eglurder ynghylch y mathau o ganlyniadau amgylcheddol a chyfraddau talu y byddai'n eu cefnogi. Yn dilyn ail gam cyd-ddylunio ac yn amodol ar y Bil Amaethyddiaeth yn cael Cydsyniad Brenhinol, byddwn yn lansio ymgynghoriad terfynol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Er nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ar union natur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar gynigion sy'n ymwneud â dyluniad y Cynllun sy'n cael eu llywio gan amrywiaeth o ddadansoddiadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Rydym yn cynllunio sesiynau ymgysylltu pellach gyda rhanddeiliaid a fydd yn mireinio dyluniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ymhellach ac yn sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Bydd yr ymgysylltu hwn hefyd yn cynnwys cynigion i gefnogi'r diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi.

Nodwn y ceisiadau parhaus gan yr undebau ffermio am 'daliad sefydlogrwydd' fel rhan o gynllun yn y dyfodol. Mewn ymateb, byddem yn tynnu sylw at y ffaith bod mesurau argyfwng ac ymyrryd yn y farchnad ar waith ar lefel y DU a byddant yn

parhau i fod yn rhan o fesurau'r Llywodraeth i ddelio ag ansefydlogrwydd neu fethiant yn y farchnad. Fodd bynnag, credwn mai'r ymateb gorau i anwadalwch y farchnad ar lefel fferm unigol yw cael amrywiaeth o ffrydiau incwm a rheoli costau cystal â phosibl. Yn hyn o beth, mae'r taliadau arfaethedig y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ar gyfer darparu canlyniadau amgylcheddol yn ffrwd incwm newydd (un nad oes modd ei ddisodli gan ffermwyr mewn mannau eraill).

Cynigir y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy hefyd yn rhoi cyngor a chymorth i fusnesau fferm ar reoli costau a chynyddu elw net fel rhan o wasanaeth Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi cyffredinol. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ein cynllun i bontio i'r Cynllun newydd a dirwyn Cynllun y Taliad Sylfaenol i ben yn raddol dros gyfnod pontio aml-flwyddyn. Bydd y cyfnod hwn yn helpu i ddarparu sefydlogrwydd wrth inni drosglwyddo i'r Cynllun newydd.

Cynigiom, mewn rhai amgylchiadau, y dylai landlordiaid a thenantiaid allu gwneud ceisiadau ar y cyd am fynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gall hyn fod yn fanteisiol pan fo trefniadau tenantiaeth yn rhai tymor byr, ond ystyrir bod rhai camau gweithredu hirdymor fel plannu coetiroedd yn ddymunol. Roedd safbwyntiau cymysg ar briodoldeb y dull hwn. Byddwn yn ystyried yr ymatebion yn fanylach ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ystyried y cynnig hwn ymhellach.

Casglu a Rhannu Data

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynigion ynghylch casglu a rhannu data. Byddwn yn sicrhau y bydd y cynigion deddfwriaethol a'r cynllun yn hwyluso gwell defnydd o ddata a phrosesau symlach. Byddwn yn profi technegau casglu data arloesol megis arsylwi'r ddaear i gefnogi'r gwaith o fonitro'r cynllun a gorfodi rheoliadau. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i archwilio ymarferoldeb cronfa ddata genedlaethol.

Lleihau'r Baich Gweinyddol

Rydym yn falch o weld ymatebwyr yn croesawu cynigion i symleiddio'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth reoleiddiol er mwyn lleihau'r baich gweinyddol.

Wrth gefnogi cynigion monitro, teimlai rhai ymatebwyr fod angen mwy o adnoddau ar hyn megis staff a hyfforddiant ar gyfer staff, monitro o bell, a data mwy amser real. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae rheoleiddwyr yn ei chwarae ac yn cytuno bod nifer o ystyriaethau pellach y bydd eu hangen i sicrhau y gall rheoleiddwyr gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Byddai hyn yn cynnwys disgwyliadau a gofynion rheoleiddwyr o ran adnoddau.

Gwerth Archwiliadau Ffermydd

Nodom fod rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynigion yn tanbriso pwysigrwydd archwiliadau ffermydd o ran monitro a sicrhau cydymffurfiaeth.

Rydym yn cydnabod yn llawn gwerth archwiliadau ffermydd, ond er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau dylai'r archwiliadau hyn gael eu targedu'n well at y rhai sydd â'r risg uchaf. Credwn y bydd mynediad at dechnoleg o bell a rhannu data'n

well yn ein helpu i gyflawni hyn a byddwn yn parhau i ymchwilio i sut y gallai hyn weithio.

Coedwigaeth a Choetiroedd

Cynnig i'r cynllun gefnogi creu a rheoli coetiroedd

Mae angen i Gymru sicrhau newid sylweddol i greu mwy o goetiroedd er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Rydym am wneud hyn mewn ffordd sy'n diogelu hyfywedd ein busnesau amaethyddol ac mae gan ffermwyr rôl hanfodol i'w chwarae wrth blannu mwy o goed yng Nghymru. Bydd ffermwyr yn cael cynnig cymorth i greu a rheoli coetiroedd drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol.

Marchnadoedd carbon

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'n cynigion yn y Papur Gwyn ac rydym wedi sefydlu gweithgor i ystyried modelau i ddenu buddsoddiad i greu coetiroedd, heb amharu ar gymunedau a phatrymau presennol perchnogion tir. Bydd y gweithgor newydd yn ystyried sut i ddiffinio'r mathau o fuddsoddiad a fydd o fudd i gymunedau lleol a sut y gallwn geisio targedu cymorth yn effeithiol i ddiogelu'r gymunedau hyn.

Creu Coetiroedd

Roedd cefnogaeth gyffredinol i Lywodraeth Cymru gymryd pwerau i ddiwygio rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac rydym yn bwriadu cynnwys hyn yn y Bil Amaethyddiaeth.

Trwyddedau cwmpo coed a'r cosbau am dorri coed yn anghyfreithlon

Rydym yn bwriadu cynnwys pwerau o fewn y Bil Amaethyddiaeth i ychwanegu amodau at drwyddedau cwmpo coed a phwerau i ganiatáu diwygio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau ar ôl iddynt gael eu rhoi.

Rydym yn cydnabod yr angen am ganllawiau clir ar sut a phryd y caiff y pwerau hyn eu defnyddio a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi canllawiau drafft cyn i'r Bil gael ei gyflwyno.

Eithriadau i drwyddedau cwmpo coed wedi'u heintio â chlefyd y coed ynn.

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â deddfwriaeth yn y maes hwn Byddwn yn darparu cymorth i berchnogion tir sy'n delio â chlefyd y coed ynn drwy lwybrau nad ydynt yn rhai rheoleiddiol ac rydym yn datblygu canllawiau i berchnogion tir sy'n delio â'r clefyd hwn.

Cynigion ar gyfer Pwerau ychwanegol

Tenantiaethau Amaethyddol

Ni ddaeth unrhyw dueddiadau clir i'r amlwg o'r ychydig ymatebion i'r adran hon, gyda chymorth amodol yn ymddangos yn fwy cyffredin ymhlith is-set fach.

Roedd y rhai sydd o blaid ymestyn y trefniadau datrys anghydfod am gydsyniad landlord i weithgareddau i Denantiaethau Busnes Fferm (FBT) yn teimlo bod amodau'r farchnad yn cyfyngu ar bŵer a dylanwad tenantiaid i ail-negodi cytundebau. Er bod y rhai a wrthwynebwyd wedi nodi bod hyblygrwydd y fframwaith FBT wedi arwain at lai o anghydfodau, ac yn teimlo y gallai unrhyw newid pellach danseilio cyfraith contract a hyder yn y sector gosod. Mae angen ystyried ac archwilio'r sylfaen dystiolaeth ymhellach, ar y cyd â rhanddeiliaid (gan gynnwys Grŵp y Diwydiant ar Ddiwygio Tenantiaethau (TRIG)), er mwyn canfod yn well yr angen am newid o'r fath yn y dyfodol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiynau hyn o blaid ymestyn y ddarpariaeth i landlordiaid, gan nodi tegwch fel ystyriaeth allweddol. Mae hyn yn groes i ganfyddiadau ein hymgyngoriad blaenorol ar ddiwygio tenantiaethau a ganfu nad yw landlordiaid yn wynebu cyfyngiadau yn yr un modd â thenantiaid. Teimlai'r rhai a oedd yn gwrthwynebu mai yng nghyd-destun yr amgylchedd polisi newidiol yn unig y byddai modd newid hawliau eiddo preifat yn ôl-weithredol ac yn arbennig ar gyfer tenantiaethau o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 h.y. i gefnogi tenantiaid o dan y Ddeddf hon i gael mynediad at gynlluniau cymorth yn y dyfodol. Ar y cyfan, ac o ystyried mai nod y ddarpariaeth yw galluogi mynediad teg i gynlluniau yn y dyfodol, rydym o'r farn nad ymestyn y ddarpariaeth i landlordiaid fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni ein nod polisi. Yn hytrach credwn mai drwy ddyluniad y cynllun a'r meini prawf cymhwysedd y dylid ymdrin â hyn.

Yn olaf, teimlai rhai nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell ac awgrymwyd diwygiadau ychwanegol, megis darpariaethau ar gyfer FBT gyda thymor cychwynnol o 10 mlynedd. Awgrymodd eraill y byddai dulliau amgen yn cyflawni'r nod polisi yn well, megis gwasanaeth cynghori i denantiaid a landlordiaid godi ymwybyddiaeth ac annog ystyriaeth fanylach a'r defnydd o'r hyblygrwydd a roddir eisoes gan fframwaith yr FBT. Byddai angen ystyried diwygiadau deddfwriaethol pellach yn fanwl gyda rhanddeiliaid, y tu allan i gwmpas y Bil hwn.

Tir Comin

Amlygodd yr ymgynghoriad rôl bwysig tir comin ac y dylai gael mwy o sylw ac ystyriaeth o ran sut y caiff ei reoli a'i ddiogelu'n effeithiol. Drwy drafod cynigion y cynllun ymhellach, byddwn yn sicrhau bod anghenion y rhai sydd â hawliau tir comin yn cael eu hystyried ac y byddant yn cael mynediad teg i'r cynllun yn y dyfodol.

O ran y cynigion penodol ar dir comin, prin oedd yr ymatebion a byddwn yn gweithio i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth gyda rhanddeiliaid yn y maes hwn cyn cyflwyno deddfwriaeth yn hyn o beth.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

Roedd yr ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gyffredinol i bwerau ychwanegol i ymateb i achosion o glefydau, ond amlygodd ddymuniad i ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori ar y dull o gymhwyso rheolaethau symud os bydd achos newydd neu glefyd, a'r diffiniad o 'anifeiliaid' y mae rheolaethau o'r fath yn berthnasol iddynt. Un o'r prif bryderon a amlygwyd oedd yr angen am gysondeb a chydweithredu rhwng gweinyddiaethau'r DU, yn enwedig yng ngoleuni materion masnach trawsffiniol/mewnol y DU. Codwyd safonau lles anifeiliaid hefyd fel mater gan y gall lles anifeiliaid gwael gyfrannu at ddatblygiad a lledaeniad clefydau anifeiliaid.

Rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig ar gyfer rheolaethau symud. Byddwn yn ystyried ymhellach y cwestiwn o sicrhau cysondeb rhwng gweinyddiaethau'r DU a'r cyfle i ymgysylltu ymhellach â'r cyhoedd ar y dull o reoli symudiadau. Mae sicrhau bod safonau lles yn cael eu cynnal yn cyd-fynd â'n hathroniaeth o atal lledaeniad clefydau a chânt eu hystyried fel rhan o ymgynghoriad ac wrth ddatblygu deddfwriaeth.

Rheoleiddio'r Defnydd o Faglau

Roedd cyfran fawr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r dull hwn gan nodi pryderon ynghylch lles anifeiliaid a dal anifeiliaid nad ydynt yn dargedau. Fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn gwahardd defnyddio maglau a thrapiau glud.

Arferion Busnes Amaethyddol Cynaliadwy

Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn ymwneud â'r maes polisi hwn, ond tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd sicrhau cysondeb â gweddill y DU o ystyried natur drawsffiniol y marchnadoedd amaethyddol a'r cadwyni cyflenwi.

Byddwn yn datblygu syniadau ynghylch y materion sy'n wynebu'r gadwyn gyflenwi ac yn ymgysylltu â'r diwydiant i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth.

Yr Isafswm Cyflog Amaethyddol

Ychydig iawn o ymatebion a gafwyd i'r cynnig hwn, ond roedd y rhai a ymatebodd yn gefnogol ar y cyfan. Rydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau i weithio mewn partneriaeth yn effeithiol yn nes ymlaen.

Amodau Eithriadol yn y Farchnad / Mesurau Argyfwng / Ymyriad Cyhoeddus a Chymorth Storio Preifat

Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch y cynigion, ac roedd y rhan fwyaf o'r farn bod y pwerau ychwanegol arfaethedig yn werthfawr, yn gymesur ac yn angenrheidiol oherwydd bod y pwerau sydd ar hyn o bryd yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 yn dod i ben. Cynigir felly ein bod yn parhau i geisio pwerau ychwanegol yn y maes hwn cyn i'r pwerau cyfatebol yn Neddf y DU ddod i ben.

Safonau Marchnata a Chategoreiddio Carcasau

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o blaid y cynigion i gymryd pwerau at ddibenion Safonau Marchnata a Chategoreiddio Carcasau. Fodd bynnag, roedd teimlad

cyffredinol hefyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU, a sicrhau cysondeb â hwy, yn achos Safonau Marchnata a Chategoreiddio Carcasau.

Byddwn yn ceisio pwerau ychwanegol yn y maes hwn cyn i'r pwerau cyfatebol yn Neddf y DU ddod i ben.

Cynhyrchion Organig

Cafwyd ymateb cymysg, er nad oedd llawer o ymatebwyr yn cyfeirio at y cynnig polisi ar gynhyrchion organig. Mae Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru yn cefnogi bod y gwaith o wneud deddfwriaeth mewn maes datganoledig yn cael ei wneud drwy'r Senedd, er eu bod yn pwysleisio'r angen i gytuno ar reoliadau ledled y DU. Roedd y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol yn pryderu ynghylch pwerau a fyddai fel arall yn parhau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, yn cael eu trosglwyddo i'r Bil Amaethyddiaeth.

Mae darpariaeth ddigonol ar gyfer Gweinidogion Cymru drwy Ddeddf Amaethyddiaeth 2020. Nid yw'r darpariaethau hyn yn dod o dan y cymal machlud a gall Gweinidogion barhau i arfer eu pwerau ar ôl 2024.

Gwrteithiau ac Adnabod ac Orlhain Anifeiliaid

Prin oedd yr ymatebion ar y cynigion hyn a gwneir darpariaeth ddigonol ar gyfer Gweinidogion Cymru drwy Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

Y Gymraeg

Cytunwn fod sector amaethyddol cydnerth yn bwysig er mwyn sicrhau cymunedau gwledig bywiog a bod gan hyn gysylltiadau pwysig â diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Bydd y dadansoddiadau economaidd y byddwn yn ymgymryd â hwy yn sicrhau ein bod yn deall effeithiau ein cynigion fesul rhanbarth a fesul sector. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau a geisiwn, mae angen inni sicrhau bod gennym sector ffermio cynaliadwy. Bydd yr holl faterion a godir yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Asesiadau Integredig o Effeithiau

Rydym yn croesawu'r adborth ar yr asesiadau effaith drafft ac yn cydnabod yr angen am ragor o fanylion. Byddwn yn ystyried yr adborth a roddir wrth baratoi'r fersiwn nesaf o'r asesiadau effaith a fydd yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y meysydd perthnasol i sicrhau bod data perthnasol yn cael eu hystyried. Bydd hon yn broses barhaus. Byddwn yn cyhoeddi ein hasesiad terfynol ochr yn ochr â'r cynigion terfynol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.